

# **Cwestiynau Ysgrifenedig a Atebwyd o 12 i 28 Mai**

## **Written Questions answered from 12 to 28 May**

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[R] signifies the Member has declared an interest.

### **Cynnwys**

### **Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd  
*Questions to the First Secretary*
- 4 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig  
*Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development*
- 5 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
*Questions to the Secretary for Health and Social Services*
- 6 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg Cyn-16  
*Questions to the Secretary for Under-16 Education*
- 7 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16  
*Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training*

## **Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary**

### **Royal Welsh Show (Temporary Caravan Site)**

**Nick Bourne:** Will funding for police control and supervision of a temporary caravan site for travelling people be provided during the Royal Welsh Show in 1999? (WAQ53VB)

**The First Secretary:** This is a matter for Powys County Council and the Royal Welsh Agricultural Society. A working group has been convened by Powys County Council to identify land suitable for a temporary caravan site for travelling people during this year's Royal Welsh Show. The working group comprises representatives of Powys County Council, Dyfed-Powys police and the Royal Welsh Agricultural Society. I understand that it is intended that security, including 24-hour police cover, will be made available for the chosen site. The working group will also consider how the policing arrangements will be funded.

### **Sioe Frenhinol Cymru (Safle Carafanau Dros Dro)**

**Nick Bourne:** A fwriedir darparu arian er mwyn i'r heddlu reoli a goruchwylio safle carafanau dros dro ar gyfer teithwyr yn ystod Sioe Frenhinol Cymru 1999? (WAQ53VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mater yw hwn i Gyngor Sir Powys a Chymdeithas y Sioe Amaethyddol Frenhinol. Cynullwyd gweithgor gan Gyngor Sir Powys i nodi tir addas ar gyfer maes carafanau dros dro i deithwyr yn ystod Sioe Frenhinol Cymru eleni. Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Powys, heddlu Dyfed-Powys a Chymdeithas y Sioe Amaethyddol Frenhinol. Deallaf y bydd trefniadau diogelwch ar gael ar gyfer y safle a ddewisir, gan gynnwys gwarchodaeth 24 awr gan yr heddlu. Bydd y gweithgor hefyd yn ystyried sut y telir am y trefniadau heddlu.

### **Junior Doctors (Working Time Directive)**

**Nick Bourne:** Will the proposals in papers circulated by government Ministers (during discussions on the European working time directive) indicating that junior doctors should work up to 65 hours a week over the next eight years apply to Wales? (WAQ 60VB)

**The First Secretary:** Junior doctors in Wales will not be expected to work longer hours as a result of the working time directive. We are not trying to increase their hours but to reduce them, first to the present 56-hour target and then down to 48 hours. The papers to which the Member refers were about setting upper limits on the time doctors can work, not about actual hours worked. Whatever provisions are agreed by the Council of Ministers in connection with the extension of the working time directive to junior doctors, and embodied in a directive, will apply legal maxima to the hours that junior doctors can work in all member states.

### **Meddygon Iau (Cyfarwyddeb Amser Gweithio)**

**Nick Bourne:** A fydd y cynigion a gyhoeddwyd mewn papurau a ddosbarthwyd gan Weinidogion y llywodraeth (wrth drafod y gyfarwyddeb amser gweithio Ewropeaidd) a ddynodai y dylai meddygon iau weithio hyd at 65 awr yr wythnos dros yr wyth mlynedd nesaf yn cael eu rhoi ar waith yng Nghymru? (WAQ 60VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ni fydd disgwyl i feddygon iau yng Nghymru weithio oriau hwy yn sgîl y gyfarwyddeb amser gweithio. Nid ydym yn ceisio cynyddu eu horiau, ond yn hytrach eu cwtdogi, i'r targed presennol o 56 awr i ddechrau ac yna i lawr i 48 awr. Yr oedd y papurau y cyfeiria'r Aelod atynt yn sôn am bennu terfynau uchaf ar gyfer yr amser y gall meddygon

weithio, yn hytrach nag am yr oriau gweithio gwirioneddol. Bydd pa ddarpariaethau bynnag y cytunir arnynt gan Gyngor y Gweinidogion o ran estyn y gyfarwyddeb amser gweithio i feddygon iau, ac a ymgorfforir mewn cyfarwyddeb, yn pennu uchafsymiau cyfreithiol o ran yr oriau y gall meddygon iau eu gweithio ym mhob aelod-wladwriaeth.

### **Tourism**

**Nick Bourne:** Has the First Secretary any plans for a review of tourism in Wales? (WAQ61VB)

**The First Secretary:** Yes. The Wales Tourist Board is currently consulting widely on the structure and a revised strategy for tourism in Wales, and will submit recommendations for consideration by the Assembly in the autumn. I am strongly committed to promoting the tourist industry. That is why I have made it part of the economic development portfolio in the Assembly. It is crucial to promote the tourism industry in Wales robustly in future.

### **Twristiaeth**

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu cynnal arolwg o dwristiaeth yng Nghymru? (WAQ61VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ydw. Mae Bwrdd Croeso Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori'n eang ynglŷn â strwythur a strategaeth ddiwygiedig ar gyfer twristiaeth yng Nghymru, a bydd yn cyflwyno argymhellion i'w hystyried gan y Cynulliad yn yr hydref. Mae gennyf ymrwymiad cryf i hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth. Dyna pam yr wyf wedi ei gynnwys yn rhan o'r portffolio datblygu economaidd yn y Cynulliad. Mae'n holl bwysig hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth yn gryf yng Nghymru yn y dyfodol.

### **Heart of Wales Railway Line**

**Nick Bourne:** Is capital investment planned in the Heart of Wales railway line? (WAQ62VB)

**The First Secretary:** Investment in rail infrastructure is a matter for Railtrack, whose published network management statement sets out investment strategies for particular routes. On the Heart of Wales line, this includes work to maintain structures and viaducts as well as the completion of the station regeneration programme. Copies of the 1999 network management statement are available in both the Cathays Park Library and the Cardiff Bay Library.

### **Llinell Reilffordd Calon Cymru**

**Nick Bourne:** A oes cynlluniau yn yr arfaeth i fuddsoddi cyfalaf yn llinell reilffordd Calon Cymru? (WAQ62VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae buddsoddi yn seilwaith rheilffyrdd yn fater i Railtrack, y mae ei ddatganiad cyhoeddus ar reoli rhwydweithiau yn nodi'r strategaethau buddsoddi ar gyfer llwybrau rheilffordd penodol. Ar llinell Calon Cymru, mae hynny'n cynnwys cynnal a chadw adeiladweithiau a thraphontydd yn ogystal â chwblhau'r rhaglen adnewyddu gorsafoddedd. Mae copïau o ddatganiad rheoli rhwydweithiau 1999 ar gael yn Llyfrgell Parc Cathays yn ogystal ag yn Llyfrgell Bae Caerdydd.

### **Cambrian Coast Railway Line**

**Nick Bourne:** Is capital investment planned in the Cambrian Coast railway line? (WAQ63VB)

**The First Secretary:** Investment in rail infrastructure is a matter for Railtrack, whose published network management statement sets out investment strategies for particular routes. On the Cambrian Coast line this includes renewal works on Barmouth viaduct, which will allow it to be reopened to locomotive-hauled trains. Copies of the 1999 network management statement are available in both the Cathays Park Library and the Cardiff Bay Library.

### **Llinell Reilffordd Arfordir Cymru**

**Nick Bourne:** A oes cynlluniau yn yr arfaeth i fuddsoddi yn llinell Arfordir Cymru?(WAQ63VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae buddsoddi yn seilwaith rheilffyrdd yn fater i Railtrack, y mae ei ddatganiad cyhoeddiedig ar reoli rhwydweithiau yn nodi'r strategaethau buddsoddi ar gyfer llwybrau rheilffordd penodol. Ar llinell Arfordir Cymru mae hynny'n cynnwys gwaith adnewyddu ar draphont y Bermo, a fydd yn ei gwneud yn bosibl ei hailagor i drenau a dynnir gan locomotif. Mae copiâu o ddatganiad rheoli rhwydweithiau 1999 ar gael yn Llyfrgell Parc Cathays yn ogystal ag yn Llyfrgell Bae Caerdydd.

### **Hill Livestock Compensatory Allowances**

**Nick Bourne:** Has the First Secretary had representations on the proposed changes to HLCA payments and, if so, what were they? (WAQ64VB)

**The First Secretary:** I launched the consultation paper on HLCA reform under Agenda 2000 on 6 April. To date, I have received only a handful of replies. The consultation period ends on 25 June. All the responses will then be analysed, and presented to the Assembly in July.

### **Lwfansau Iawndal Da Byw Tir Uchel**

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi derbyn sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r taliadau HLCA, ac os ydyw, beth oedd y sylwadau hynny? (WAQ64VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe lawnsiais y ddogfen ymgynghorol ar ddiwygio HLCA o dan Agenda 2000 ar 6 Ebrill. Hyd yma, llond llaw yn unig o ymatebion a dderbyniais. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 25 Mehefin. Yna caiff yr holl ymatebion eu dadansoddi, a'u cyflwyno i'r Cynulliad ym mis Gorffennaf.

### **Cwrt-y-gollen Camp**

**Nick Bourne:** Does the First Secretary have plans to encourage the acquisition of the former camp at Cwrt-y-gollen near Crickhowell for sports facilities for use as an all-Wales purpose or some other community use? (WAQ59VB)

**The First Secretary:** Any decision to buy Cwrt-y-gollen must be a matter for prospective purchasers. The Sports Council for Wales has provided the Ministry of Defence with advice on the issues which would need to be considered by anyone interested in buying the site for the development of sporting facilities. An organisation or community group could be eligible for financial assistance from Sportlot to purchase the site for such purposes.

### **Gwersyll Cwrt-y-gollen**

**Nick Bourne:** A oes gan y Prif Ysgrifennydd gynlluniau i annog troi hen wersyll Cwrt-y-gollen ger Crucywel yn gyfleusterau chwaraeon ar gyfer Cymru gyfan neu i'w defnyddio at ryw ddiben cymunedol arall? (WAQ59VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd yn rhaid i unrhyw benderfyniad i brynu Cwrt-y-gollen fod yn fater i'r darpar brynwyr. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi cyngori'r Weinyddiaeth Amddiffyn ynglŷn â'r materion y byddai angen i unrhyw un a fyddai â diddordeb mewn prynu'r safle er mwyn datblygu cyfleusterau chwaraeon eu hystyried. Gallai sefydliad neu grŵp cymunedol fod yn gymwys i gael cymorth ariannol gan Sportlot i brynu'r safle at ddibenion o'r fath.

### **Refugees from Kosovo**

**Ron Davies:** What arrangements are being made to receive refugees in Wales from Kosovo? How is the Welsh Office response being co-ordinated? Will the First Secretary make a statement on the matter? (WAQ42VB)

**The First Secretary:** The Home Office is in the lead on this issue and has advised that there are no immediate plans for refugees to come to Wales. The situation is subject to change and officials are liaising with their colleagues at the Home Office to keep up to date. They are also liaising with and disseminating information to all agencies in Wales who have an interest in this matter. Officials in the department are currently considering what resources will be required to co-ordinate the reception of refugees from Kosovo should it become necessary.

### **Ffoaduriaid o Kosovo**

**Ron Davies:** Pa drefniadau a wneir i dderbyn ffoaduriaid o Kosovo i Gymru? Sut y cydlynir ymateb y Swyddfa Gymreig? A fydd y Prif Ysgrifennydd yn gwneud datganiad ar y mater? (WAQ42VB)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Y Swyddfa Gartref sy'n arwain ar y pwnc hwn ac mae wedi ein cyngori nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i ffoaduriaid ddod i Gymru. Mae'r sefyllfa yn debygol o newid ac mae swyddogion yn cysylltu â'u cydweithwyr yn y Swyddfa Gartref i gael y sefyllfa ddiweddaraf. Maent hefyd yn cadw cysylltiad ac yn rhannu gwybodaeth â'r holl asiantaethau yng Nghymru sydd â diddordeb yn y pwnc hwn. Mae swyddogion yn yr adran ar hyn o bryd yn ystyried pa adnoddau y bydd eu hangen i gydlynu'r gwaith o dderbyn ffoaduriaid o Kosovo, pe bai gofyn gwneud hynny.

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development**

### **Animal Rights Movement**

**Glyn Davies:** Is Christine Gwyther still involved with any organisation or involved with any protest promoting the animal rights movement? (WAQ46JUG)

**The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther):** No, I have never been involved with such organisations or protests.

### **Mudiad Hawliau Anifeiliaid**

**Glyn Davies:** A yw Christine Gwyther yn parhau i ymwneud ag unrhyw gorff neu ag unrhyw brotest sy'n hyrwyddo'r mudiad hawliau anifeiliaid? (WAQ46JUG)

**Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther):** Nac ydwyf. Nid wyf erioed wedi bod ynghlwm wrth unrhyw sefydliad na phrotest o'r fath.

### **Independent Appeals Panel**

**Mick Bates:** What plans are being made to establish an independent appeals panel for Wales to adjudicate in disputes between Government and farmers? (WAQ54VB)

**Christine Gwyther:** Discussions have been taking place at official level with the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food, the Scottish Office and the Northern Ireland Office on whether there is a need to establish such a panel, and what its remit and scope might be.

### **Panel Apelau Annibynnol**

**Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i sefydlu panel apelau annibynnol i Gymru er mwyn dyfarnu pan fo anghydfod rhwng y Llywodraeth a ffermwyr? (WAQ54VB)

**Christine Gwyther:** Cynhaliwyd trafodaethau swyddogol gyda'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, Swyddfa'r Alban a Swyddfa Gogledd Iwerddon i ystyried a oes angen sefydlu panel o'r fath, a beth fyddai ei gylch gwaith a'i gwmpas.

### **Meat Products (Labelling)**

**Brian Gibbons:** What future provisions will exist in Wales for the labelling of meat products that will inform the consumer of potential risks identified by the Chief Medical Officer? (WAQ56JS)

**Christine Gwyther:** At present, there are no plans to label meat products in a way that will inform the public of potential risks identified by the Chief Medical Officer.

### **Cynhyrchion Cig (Labelu)**

**Brian Gibbons:** Pa ddarpariaethau a wneir yng Nghymru yn y dyfodol ar gyfer labelu cynhyrchion cig er mwyn hysbysu'r cwsmer am risgiau posibl sydd wedi'u nodi gan y Prif Swyddog Meddygol? (WAQ56JS)

**Christine Gwyther:** Ar hyn o bryd, nid oes cynlluniau i labelu cynhyrchion cig mewn modd a fydd yn hysbysu'r cyhoedd am risgiau posibl sydd wedi'u nodi gan y Prif Swyddog Meddygol.

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Secretary for Health and Social Services**

### **Beta Interferon**

**Kirsty Williams:** What provision will exist in Welsh hospitals for the prescribing of beta interferon for secondary progressive multiple sclerosis? (WAQ57VB)

**The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt):** We are considering whether it would be helpful to develop clinical guidelines, for example on the lines of those issued by the Welsh Office in 1995, for the treatment of the relapsing-remitting form of the disease.

In the meantime, the supply of the drug under the NHS for secondary progressive MS remains a matter for local decision.

### **Beta Interferon**

**Kirsty Williams:** Beth fydd y ddarpariaeth yn ysbytai Cymru ar gyfer rhagnodi beta interferon ar gyfer sglerosis ymledol cynyddol eilaidd? (WAQ57VB)

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Yr ydym yn ystyried a fyddai'n fuddiol datblygu canllawiau clinigol, tebyg i'r rhai a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig yn 1995, i drin y ffurf atglafychol-ysbeidiol ar yr afiechyd.

Yn y cyfamser, mae cyflenwi'r cyffur o dan yr NHS ar gyfer sglerosis ymledol cynyddol eilaidd yn parhau'n fater i benderfynu arno'n lleol.

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 Questions to the Secretary for Under-16 Education**

### **Home-School Agreement Guidelines**

**Kirsty Williams:** Given the lack of home-school agreement guidelines in Wales, is it the intention of the Under-16 Education Secretary to extend the deadlines for schools to have their agreements in place to allow for real consultation between teachers and parents? (WAQ58JS)

**The Secretary for Under-16 Education (Rosemary Butler):** Guidance on home-school agreements will be sent to schools in time for the start of the second half of the summer term. Copies will also be sent to local education authorities. The guidance does not differ greatly from the draft guidance on which the Welsh Office consulted late last year.

The statutory deadline for schools in Wales to have agreements in place is 1 September 1999 and I hope that schools will strive to achieve this. However, I recognise that the deadline may not be achievable in all cases in light of the requirement to consult parents and others.

### **Canllawiau ar gyfer Cytundeb Cartref-Ysgol**

**Kirsty Williams:** O gofio'r diffyg canllawiau ar gyfer cytundebau cartref-ysgol yng Nghymru ar hyn o bryd, a yw'n fwriad gan yr Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 i ymestyn y terfynau amser i ysgolion ar gyfer paratoi'r cytundebau hyn er mwyn i athrawon a rhieni gael ymgynghori ar y mater yn drylwyr? (WAQ58JS)

**Yr Ysgrifennydd Addysg Cyn-16 (Rosemary Butler):** Anfonir canllawiau ynglŷn â chytundebau cartref-ysgol i ysgolion mewn da bryd erbyn dechrau ail hanner tymor yr haf. Anfonir copïau hefyd i'r awdurdodau addysg lleol. Nid yw'r canllawiau yn wahanol iawn i'r canllawiau drafft yr ymgynghorodd y Swyddfa Gymreig yn eu cylch ddiwedd y llynedd.

Y terfyn amser statudol i ysgolion yng Nghymru fod wedi sefydlu eu cytundebau yw 1 Medi 1999 ac yr wyf yn gobeithio y bydd ysgolion yn ymdrechu i wneud hynny. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod na fydd modd cyrraedd y terfyn amser ym mhob achos, o gofio'r angen i ymgynghori â rhieni ac eraill.

**Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16**  
**Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training**

**Sportlot**

**John Griffiths:** Will Tom Middlehurst make representations to enable organisations such as Sportlot to differentiate between Cardiff and south-east Wales as a whole? (WAQ5SJ)

**The Secretary for Post-16 Education (Tom Middlehurst):** The Sports Council for Wales already considers and distinguishes between the needs of individual local authorities in south-east Wales. For example, it recently fully considered the separate bids from Cardiff and Newport for a Sportlot grant towards a 50m swimming pool. The Sports Council welcomes development proposals and bids for grants from any of the local authorities in south-east Wales, and will continue to consider such proposals and bids on their merits.

**Sportlot**

**John Griffiths:** A fydd Tom Middlehurst yn cyflwyno sylwadau i alluogi cyrff megis Sportlot i wahaniaethu rhwng Caerdydd a de-ddwyrain Cymru yn ei chyfanrwydd? (WAQ5SJ)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst):** Mae Cyngor Chwaraeon Cymru eisoes yn ystyried anghenion awdurdodau lleol unigol yn ne-ddwyrain Cymru ac yn gwahaniaethu rhwng yr anghenion hynny. Er enghraifft, yn ddiweddar fe roddodd ystyriaeth lawn i'r cynigion a wnaethpwyd ar wahân gan Gaerdydd a Chasnewydd am grant gan Sportlot ar gyfer pwll nofio 50 metr. Mae'r Cyngor Chwaraeon yn croesawu cynigion datblygu a cheisiadau am grantiau o du unrhyw un o awdurdodau lleol de-ddwyrain Cymru, a bydd yn parhau i ystyried cynigion a cheisiadau o'r fath yn ôl eu rhinweddau.